

Cyrddau Mudiad y Chwiorydd yn Aberduar


Daeth bore'r 16eg o Fedi yn ddigon braf, a felly bu'r tywydd drwy'r dydd. Cawsom gyfle i groesawu chwiorydd o Gymru i gyd, ac ambell i gymar yn eu sgîl i'r oedfaon. Wedi'r defosiwn yng ngofal chwiorydd y Cylch, roedd oedfa'r prynhawn yn llawn o fusnes Mudiad y Chwiorydd, adroddiadau a chyflwyniadau, cyfarchion gan yr Undeb a'r Senana ac ati, ac yn ystod y cyfnod hwn cefais y fraint o gael fy urddo'n llywydd y Mudiad ar gyfer y flwyddyn nesaf hon, a rhoi anerchiad byr oedd i fod ond yn gyflwyniad i oedfa'r hwyr.

Erbyn oedfa'r hwyr, roedd y cyfan yng ngofal y Cylch, gyda chyfraniadau gan Rosemary Morgan o Landeilo a chwiorydd y Tabernacl, Caerfyrddin. Bu llawer o'r chwiorydd yn cymryd rhan, a diolch i bob un am ei gyfraniad. Y sôn yw bod pawb wedi mwynhau - mwynheais i beth bynnag a gobeithio eich bod chi oedd yno hefyd wedi mwynhau. Erbyn hyn daeth gair o ddiolch gan Rosemary ar ran Chwiorydd y Gymanfa, ac rwy'n ychwanegu fy niolch i i bawb fu'n rhan o'r croeso: brodyr Aberduar wrth y parcio a stiwardio, pobl Aberduar yn paratoi'r capel a'r festri; y rhai fu ymlaen llaw yn sicrhau fod tocynnau te yn mynd allan i bobl oedd yn holi amdanyn nhw ac yn trefnu bod Rhonwen Thomas Cegin Pantygwin yn dod i'n bwydo i gyd yn ddiffws ond yn gwbl hyfryd. Diolch hefyd i'r Cylch am flodau i mi ar y diwrnod, ac am drefniadau i gwrdd â rhan o gost y bwyd yn lle ein bod yn gorfod gofyn pris llawn am y tocynnau. Diolch, wrth gwrs, i bawb am gymryd rhan, a gobeithio y gwnewch chi faddau i mi am enwi un yn arbennig, sef Janet Evans, Noddfa, fu'n ateb fy ngofidiau gyda threfniadau ac atebion drwy'r haf, ac yn wir yn dwyn cyflwyniad yr hwyr at ei gilydd. Felly, bawb, DIOLCH I CHI!

Diolchgarwch

1 Hydref	Seion	7 yr hwyr	Parchg Peter Cutts, Caerfyrddin
5 Hydref	Bethel	7 yr hwyr	Parchg Peter Cutts, Caerfyrddin
15 Hydref	Caersalem	7 yr hwyr	Parchg Peter Cutts, Caerfyrddin
21 Hydref	Aberduar	2 y prynhawn a 7 yr hwyr	Parchg Alwyn Daniels

Newyddion etc i'r gweinidog erbyn **16 Tachwedd**, Galilea, 14 Cae Coedmor, Cwmmann SA48 8EH, 01570 423442, jilltomos@tesco.net



Deufis

Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi

Hydref a Tachwedd 2015

Trefn oedfaon y Sul

Mae'r oedfaon yn gyhoeddus a chroeso i bob un fynychu unrhyw un o'r oedfaon sy'n gyfleus. Mae'r amseroedd yn gywir wrth fod y Deufis yn dod allan, ond os ydych am gael y manylion diweddaraf, beth am ddilyn @BedyddGogTeifi ar Drydar (Twitter)?

4 Hydref

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Cymun

11 Hydref

Aberduar	10.00 y bore	Mr Arwyn Pierce
Bethel	10.15 y bore	Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Cymun

18 Hydref

Noddfa	9.30 y bore	
Aberduar	11.00 y bore	
Brynhafod	1.30 y prynhawn	

25 Hydref

Aberduar	10.00 y bore	Mr Lyndon Lloyd
Bethel	10.15 y bore	
Seion	1.30 y prynhawn	

drosodd/...

Trefn y Suliau (parhad)

1 Tachwedd

Aberduar	10.00 y bore	Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Cymun

8 Tachwedd

Aberduar	10.00 y bore	Mr Rhys Bebb Jones
Brynhafod	2.00 y prynhawn	Oedfa gymun ar gyfer Seion a Brynhafod o dan ofal Mrs Delyth Morgans Phillips
Noddfa	5.00 yr hwyr	Oedfa Ddiolchgarwch yr Ysgol Sul

15 Tachwedd

Noddfa	9.30 y bore
Aberduar	11.00 y bore
Brynhafod	1.30 y prynhawn

22 Tachwedd

Aberduar	10.00 y bore	Mrs Dwynwen Teifi
Bethel	10.15 y bore	Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	
Noddfa	5.00 y prynhawn	Oedfa Deulu: anerchiad gan Mrs Delyth Morgans Phillips

29 Tachwedd

Bethel	10.30 y bore	Oedfa unedig i'r Cylch
--------	--------------	------------------------

Rhaghysbys 6 Rhagfyr: oedfaon cymun am 10 yn Aberduar, 2 yng Nghaersalem, a 3.30 yn Noddfa dan ofal y gweinidog.

Cylch Darllen

Bydd y Cylch Darllen yn ailddechrau ar fore dydd Mercher 14 Hydref am 10.30 y bore yn festri Noddfa: croeso i bawb i ddarllen y Beibl gyda'n gilydd, a thrafod beth rydym yn ei weld yno, uwchben paned. Bydd cyfarfodydd hefyd ar 11 Tachwedd a 9 Rhagfyr.

Oedfa Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd

Cynhelir hon ar brynhawn Llun 2il o Dachwedd am 1.30 y prynhawn yn ôl ein harfer bellach, yn festri Aberduar. Croeso i chwiorydd y Cylch ac eglwysi cyfagos, a chroeso i frodyr hefyd wrth gwrs!

Diolch i bob un sy'n trefnu dyblygu a dosbarthu'r Deufis.

Oedfa Deulu yn Noddfa a'r Clwb Hwyl yn Brynhafod

Mae newyddion cyffrous am Noddfa a Brynhafod oherwydd mae'r ddwy eglwys yn dechrau gwaith newydd y tymor hwn.

Yn Noddfa, y bwriad yw cynnal Oedfa Deulu yn Noddfa bob rhyw ddeufis ar y 4ydd Sul yn y mis am 5 o'r gloch. Fe fydd hon yn oedfa i rai o bob oed ac fe drefnir gweithgaredd i'r plant lleiaf yn y festri yn ystod yr anerchiad. Dyma gyfle i'r teulu cyfan addoli gyda'i gilydd a hefyd i fod yn rhan o'r trefnu. Fe fydd yr un gyntaf ar 22 Tachwedd am 5, felly rhowch y dyddiad ar y calendr, a mentrwch ddod, a dewch â'ch teuluoedd a'ch ffrindiau gyda chi.

Yn Brynhafod wedyn fe fydd y Clwb Hwyl ar ganol wythnos, am 6 nos Fercher yn y festri, pan fydd cyfle eto i'r teulu i gyd, pob oed, ddod ynghyd. Fe fydd oedfa anffurfiol, a chyfle i'r plant gael Ysgol Sul gyda'i gilydd mewn rhan o'r festri, wrth fod rhai hŷn yn sgwrsio dros baned. 30 Medi oedd yr un cyntaf, ac fe fydd 2 ym mis Tachwedd, sef y 4ydd a'r 25ain.

Dymunwn yn dda i'r ddwy eglwys wrth iddyn nhw fentro fel hyn.

Astudiaeth Feiblaidd

Edrychwn ymlaen at ailafael yn yr astudiaethau Beiblaidd ar aelwyd y Gilfach drwy wahoddiad Ann a Densil, o dan ofal y Parchg Athro Densil Morgan. Fe fydd y cyfarfod cyntaf ar 20 Hydref am 7 yr hwyr, ac yna ar y 3ydd a'r 17eg o Dachwedd, a'r 1af o Ragfyr. Mae croeso i bawb o'r Cylch i ddod ac i aelodau eglwysi lleol eraill, felly ar bob cyfri, gwahoddwch eich ffrindiau hefyd.

Noddfa

Cyhoeddwyd yn ddiweddar fod cyfle i aelodau Noddfa gyfrannu at gost y gwaith a gyflawnwyd ar y capel dros yr haf. Gan fod y newidiadau yn gymorth gyda'r gwaith plant a ieuentid, mae'n fwriad i roi cais i mewn am grant gan gronfa Pantyfedwen. I gefnogi'r cais, rhaid dangos bod yr eglwys wedi ymdrechu i godi arian ei hun. Diolch o galon medd Ann, ysgrifennydd Noddfa, i bob un sydd wedi cyfrannu'n barod. Fe fydd y swyddogion yn barod i dderbyn rhoddion at y casgliad, a fydd ar agor tan ddiwedd mis Hydref. A chi, swyddogion a diaconiaid Noddfa, cofiwch am gyfarfod ar yr 8fed o Hydref am 7 yn y festri!